# tolDogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Mawrth 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## - Pecyn atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**3.1 SL(5)750 - Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021**

(Tudalennau 1 - 2)

**CLA(5)-07-21 - Papur 3** - Adroddiad

**CLA(5)-07-21 - Papur 4** - Rheoliadau

**CLA(5)-07-21 - Papur 5** - Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-07-21 - Papur 53** - Ymateb Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

CLA(5)-07-21 - Papur 53

**3.5 SL(5)745 - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021**

(Tudalen 3)

**CLA(5)-07-21 - Papur 19** - Adroddiad

**CLA(5)-07-21 - Papur 20** - Rheoliadau

**CLA(5)-07-21 - Papur 21** - Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-07-21 - Papur 22** - Datganiad ysgrifenedig, 9 Chwefror 2021

**CLA(5)-07-21 - Papur 23** - Canllawiau Statudol

**CLA(5)-07-21 - Papur 48** - Ymateb Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

CLA(5)-07-21 – Papur 48

3.6 **SL(5)746 – Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021**

(Tudalen 4)

**CLA(5)-07-21 – Papur 24** – Adroddiad

**CLA(5)-07-21 – Papur 25** – Rheoliadau

**CLA(5)-07-21 – Papur 26** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-07-21 – Papur 27** – Datganiad ysgrifenedig, 9 Chwefror 2021

**CLA(5)-07-21 – Papur 49** – Ymateb Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

CLA(5)-07-21 – Papur 49

3.7 **SL(5)747 – Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021**

(Tudalen 5)

**CLA(5)-07-21 – Papur 28** – Adroddiad

**CLA(5)-07-21 – Papur 29** – Rheoliadau

**CLA(5)-07-21 – Papur 30** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-07-21 – Papur 50** – Ymateb Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

CLA(5)-07-21 – Papur 50

3.8 **SL(5)748 – Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021.**

(Tudalen 6)

**CLA(5)-07-21 – Papur 31** – Adroddiad

**CLA(5)-07-21 – Papur 32** – Rheoliadau

**CLA(5)-07-21 – Papur 33** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-07-21 – Papur 51** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

CLA(5)-07-21 – Papur 51

**3.9 SL(5)749 – Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021**

(Tudalen 7)

**CLA(5)-07-21 – Papur 34** – Adroddiad

**CLA(5)-07-21 – Papur 35** – Rheoliadau

**CLA(5)-07-21 – Papur 36** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-07-21 – Papur 52** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

CLA(5)-07-21 – Papur 52

**4.4 Llythyr gan y Prif Weinidog: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021**

(Tudalen 8)

**CLA(5)-07-21 – Papur 46** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 25 Chwefror 2021

Dogfennau atodol:

CLA(5)-07-21 – Papur 46

**4.5 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Adolygiad cyntaf o'r paratoadau ar gyfer etholiad y Senedd 2021 yn unol â Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)**

(Tudalennau 9 – 12)

**CLA(5)-07-21 – Papur 47** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 26 Chwefror 2021

Dogfennau atodol:

CLA(5)-07-21 – Papur 47

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021**

Gwelwn fod yr adroddiad yn nodi bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y Gorchymyn cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Gwnaed y Gorchymyn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, drwy arfer y pŵer o dan adran 116(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn unol ag adran 116(4), mae'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i'w ddiddymu drwy benderfyniad gan y Senedd.

Pwyntiau Craffu ar Rinweddau o dan Reol Sefydlog 21.3(ii)

1. Mae'r geiriad "yn ddarostyngedig yn unig i unrhyw amrywiadau sy'n angenrheidiol o dan yr amgylchiadau" yn erthygl 2 o'r Gorchymyn wedi ei gynnwys i ganiatáu, o dan amgylchiadau penodol, i'r ffurf ar eiriau yn y Breinlythyrau a'r proclamasiynau fel y'i nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn gael ei hamrywio. Mae'r geiriad wedi ei gynnwys i ddarparu ar gyfer newidiadau interim angenrheidiol i'r ffurf ar eiriau yn y Breinlythyrau a'r Proclamasiynau. Mae modd mabwysiadau'r newidiadau hynny hyd nes y gellir diwygio'r Gorchymyn.

Mabwysiadwyd yr un geiriad yn erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011 a dibynnwyd ar y geiriad i roi "Senedd Cymru" yn lle "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ym mhob Breinlythyr yn dilyn newid enw'r Senedd yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

Nid ydym yn ystyried bod adran 4(2)(a) yn darparu'n benodol y bydd proclamasiwn brenhinol yn diddymu'r Senedd. Mae adran 4(2) yn darparu y caiff Ei Mawrhydi drwy broclamasiwn ddiddymu'r Senedd, ond nid yw'n darparu bod rhaid i'w Mawrhydi ddiddymu'r Senedd ac rydym wedi ein bodloni felly y caiff y Llywydd arfer ei phŵer brys o dan adran 4(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru pan fo'r Senedd eisoes wedi ei diddymu ac ar rybudd byr iawn.

Yng nghyd-destun y geiriad mewn proclamasiwn brenhinol o dan adran 4(2)(a), rydym yn ystyried y byddai'r geiriad yn erthygl 2 yn caniatáu amrywiad o'r fath yng ngeiriad y proclamasiwn, fel y byddai'n angenrheidiol os oedd y Senedd eisoes wedi ei diddymu cyn i'r Llywydd arfer ei phŵer o dan adran 4(2) o Ddeddf 2006. O ran hynny, byddem yn rhag-weld y byddai'r geiriad ym mhwynt 1 o'r Gorchymyn, sef "mae Senedd Cymru drwy hyn wedi ei diddymu", yn cael ei hepgor o broclamasiwn a wneir o dan adran 4(2) pan oedd y Senedd eisoes wedi ei diddymu.

2. Cytunwyd ar Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) gan y Senedd ar 10 Chwefror 2021. Y gobaith yw y ceir y Cydsyniad Brenhinol yn ystod yr wythnosau i ddod. Mae'r Gorchymyn wedi ei ddrafftio i ddarparu ar gyfer datgymhwyso adran 4(2)(c) at ddiben etholiad cyffredinol 2021.

Os na cheir y Cydsyniad Brenhinol, gellid defnyddio'r geiriad a nodir yn [1] uchod ac sy'n ymddangos yn erthygl 2 o'r Gorchymyn i amrywio'r ffurf ar eiriad proclamasiwn a wneir o dan adran 4(2) o Ddeddf 2006 mewn cysylltiad â chyfarfod cyntaf y Senedd.

Rydym wedi ein bodloni bod darpariaeth statudol ddigonol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gyfarfod yn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau neu 21 o ddiwrnodau ar ôl yr Etholiad Cyffredinol nesaf, naill ai yn rhinwedd Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) neu adran 39 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

3. Mae modd amrywio'r ffurf ar eiriad unrhyw broclamasiwn a wneir o dan adran 5(4) o Ddeddf 2006 ar sail interim, yn unol â'r geiriau a nodir yn [1] uchod ac sy'n ymddangos yn erthygl 2 o'r Gorchymyn, i amrywio dyddiad cyfarfod cyntaf y Senedd o 7 niwrnod i 14 o ddiwrnodau.

Bwriedir i'r geiriau yn erthygl 2, fel y cyfeirir atynt yn [1] uchod, fabwysiadu newidiadau interim, ac felly, disgwylir y bydd angen diwygio'r Gorchymyn yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf, i roi effaith i adran 36 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 mewn perthynas â dyddiad y cyfarfod cyntaf.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy’n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021 (“y Rheoliadau”)**

Mae Asesiad Effaith Integredig (AEI) llawn ar y Rheoliadau wedi ei gwblhau. Cyhoeddwyd adrannau 1, 3, a 7 ar wefan Llywodraeth Cymru ar 23 Chwefror yn dilyn oedi byr o ganlyniad i wall technegol. Mae adran 7.2 o’r AEI yn crynhoi’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae’r adrannau sy’n weddill o’r AEI ar gael ar gais fel mater o drefn.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Mae'r Pwyllgor wedi codi 1 pwynt technegol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod y rhaglith yn cyfeirio at y ffaith bod drafft o'r Rheoliadau wedi ei osod gerbron "the Senedd Cymru" ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. Mae hyn yn anghyson â'r diffiniad, yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, o "Senedd Cymru", hynny yw, heb y fannod.

Rydym yn derbyn bod cynnwys y fannod yn wall. Os caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y gwall hwn ei gywiro yn y fersiwn a lofnodir gan y Gweinidog.

Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am ystyried y Rheoliadau hyn.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Mae’r Pwyllgor wedi codi 1 pwynt technegol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

Mae’r Pwyllgor wedi nodi bod y rhaglith yn cyfeirio at y ffaith bod drafft o’r Rheoliadau wedi ei osod gerbron “the Senedd Cymru” ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. Mae hyn yn anghyson â’r diffiniad, yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, o “Senedd Cymru”, hynny yw, heb y fannod.

Rydym yn derbyn bod cynnwys y fannod yn wall. Os caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y gwall hwn ei gywiro yn y fersiwn a lofnodir gan y Gweinidog.

Rydym yn diolch i’r Pwyllgor am ystyried y Rheoliadau hyn.

# Eitem 3.8

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021**

Mae'r Pwyllgor wedi codi 1 pwynt technegol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod y rhaglith yn cyfeirio at y ffaith bod drafft o'r Rheoliadau wedi ei osod gerbron "the Senedd Cymru" ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. Mae hyn yn anghyson â'r diffiniad, yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, o "Senedd Cymru", hynny yw, heb y fannod.

Rydym yn derbyn bod cynnwys y fannod yn wall. Os caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y gwall hwn ei gywiro yn y fersiwn a lofnodir gan y Gweinidog.

Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am ystyried y Rheoliadau hyn.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021**

Mae'r Pwyllgor wedi codi 1 pwynt technegol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod y rhaglith yn cyfeirio at y ffaith bod drafft o'r Rheoliadau wedi ei osod gerbron "the Senedd Cymru" ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. Mae hyn yn anghyson â'r diffiniad, yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, o "Senedd Cymru", hynny yw, heb y fannod.

Rydym yn derbyn bod cynnwys y fannod yn wall. Os caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y gwall hwn ei gywiro yn y fersiwn a lofnodir gan y Gweinidog.

Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am ystyried y Rheoliadau hyn.

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Senedd.DCC@Senedd.Cymru

25 Chwefror 2021

Annwyl Mick

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 11 Chwefror yn gofyn am ragor o fanylion am yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd mewn perthynas â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021, a ddaeth i rym ar 20 Ionawr.

Cafodd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r asesiad o'r effaith ar hawliau plant mewn perthynas â'r diwygiadau yn Rhan 3A 'Cyfyngiadau ar fynd i ysgolion a sefydliadau addysg bellach' eu cwblhau cyn i'r rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd, a gellir eu gweld yn y dolenni canlynol:

https://llyw.cymru/asesiad-or-effaith-ar-gydraddoldeb-rheoliadau-ynghylch-cau-safleoedd-ysgolion

https://llyw.cymru/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-rheoliadau-ynghylch-cau-safleoedd-ysgolion

Efallai y bydd gennych ddiddordeb hefyd gweld yr asesiad effaith cryno a'r asesiad effaith ar hawliau plant cysylltiedig ar y cyfyngiadau yn y lefelau rhybudd:

https://llyw.cymru/cyfyngiadau-o-fewn-y-lefelau-rhybudd-crynodeb-or-asesiad-or-effaith

https://llyw.cymru/lefelau-rhybudd-chyfyngiadau-yng-nghymru-hawliau-plant

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

26 Chwefror 2021

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi fy mod wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ar yr adolygiad cyntaf o'r paratoadau ar gyfer etholiad Senedd 2021 yn unol â Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws), ac mae i'w weld yn: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-cyntaf-or-paratoadau-ar-gyfer-etholiad-y-senedd-2021-yn-unol-bil.

Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn cyfeirio at gyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru. Mae nodyn ynghylch y cyfarfod ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/communiques-from-the-interministerial-group-for-elections-and-registration. Rwy'n ymddiheuro, ond oherwydd amryfusedd gweinyddol, ni roddais rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw o'r cyfarfod yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygiad cyntaf o'r paratoadau ar gyfer etholiad y Senedd 2021 yn unol â Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)** |
| **DYDDIAD** | **26 Chwefror 2021** |
| **GAN** | **Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol** |

Yn unol ag adran 15 o Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) ("y Bil"), gallaf gadarnhau fod Gweinidogion Cymru wedi cwblhau ein hadolygiad cyntaf o'r paratoadau ar gyfer cynnal etholiad y Senedd 2021 ar 18 Chwefror 2021.

Yn gryno, canlyniad yr adolygiad yw ein bod yn parhau'n ymrwymedig i'n bwriad presennol o gynnal yr etholiad ar 6 Mai, ochr yn ochr ag isetholiadau awdurdodau lleol fel y'u penderfynir gan y Swyddogion Canlyniadau, yn ogystal ag etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, sy'n gyfrifoldeb Llywodraeth y DU. Gan fod y sefyllfa iechyd cyhoeddus yn gwella'n raddol, nid yw'n rhesymol disgwyl i etholiad y Senedd gael ei ohirio ar hyn o bryd. Rhaid i bawb baratoi felly'n seiliedig ar hynny.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraethau'r Alban a'r DU. Ar 3 Chwefror, ymunais â chyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru. Mae hysbysiad gan y cyfarfod ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/communiques-from-the-interministerial-group-for-elections-and-registration.

**Adolygiadau pellach**

Bydd yr adolygiad statudol nesaf o'r paratoadau ar gyfer 2021 yn cael ei gwblhau erbyn 12 Mawrth, a byddaf yn gosod datganiad pellach cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol ar ôl hynny. Bydd y Prif Weinidog hefyd yn gosod datganiad, yn unol ag adran 6 o'r Bil, ar 24 Mawrth, neu cyn hynny, yn nodi a yw'n bwriadu arfer ei bŵer o dan yr adran honno i gynnig gohirio'r etholiad.

**Meini Prawf a chanllawiau ar gyfer y cyfnod cyn yr etholiad**

Cyhoeddir y meini prawf y bydd y Prif Weinidog yn eu defnyddio ar gyfer penderfynu a yw'n angenrheidiol neu'n briodol gohirio'r etholiad, a'r canllawiau ar gyfer arfer swyddogaethau

Llywodraeth Cymru yn y cyfnod cyn yr etholiad, cyn gynted â phosibl ac yn unol ag adrannau 4 a 6 o'r Bil.

**Ymgyrchu**

Mae ein Cwestiynau Cyffredin ynglŷn â'r coronafeirws yn cynnwys canllawiau ar gyfer ymgyrchu, ac maent ar gael yma: https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-4-cwestiynau-cyffredin Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r dudalen hon wrth i fwy o gwestiynau ddod i law ac wrth i'r sefyllfa iechyd cyhoeddus ddatblygu, a byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer y rheini sy'n ymgyrchu yn yr etholiad, yn unol ag adran 9 o'r Bil, cyn gynted â phosibl.

Mae'n bwysig nodi nad yw ein safbwynt ar ymgyrchu wedi newid, gan nad oes digon o le i addasu'r cyfyngiadau presennol ar hyn o bryd. Mae hynny'n golygu nad yw gadael cartref i ddosbarthu taflenni ac ymgyrchu o ddrws i ddrws yn esgus rhesymol, er gwaethaf y ffaith ei bod yn esgus rhesymol gadael cartref at ddibenion gwaith hanfodol sy'n gysylltiedig â'r etholiadau (er enghraifft os ydych yn aelod o dîm gwasanaethau etholiadol), er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag etholiadau (er enghraifft casglu llofnodion ar gyfer enwebiad) neu i bleidleisio.

**Cynnal yr etholiadau**

Rydym yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Canlyniadau i'w helpu i ddod o hyd i leoliadau a staff ar gyfer yr etholiadau. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn pwysleisio y dylai ysgolion, canolfannau cymunedol, mannau addoli, a chyfleusterau eraill fod ar gael os yw hynny'n bosibl, er mwyn i Swyddogion Canlyniadau allu eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio a chanolfannau ar gyfer cyfrif y bleidlais, er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad at y bleidlais. Mae agor safleoedd at ddefnydd swyddogol mewn perthynas â chynnal etholiadau'n cael ei ganiatáu o dan ein rheoliadau coronafeirws.

Byddem hefyd yn annog gweision cyhoeddus ac aelodau eraill o'r cyhoedd, gan gynnwys y rheini sy'n chwilio am waith, i gynnig eu henwau drwy Wirfoddoli Cymru (gwirfoddoli-cymru.net) i weithio ar yr etholiadau hyn.

**Pleidleisio**

Bydd y gorsafoedd pleidleisio yn ddiogel o ran COVID-19, a chyfrifoldeb y Swyddogion Canlyniadau fydd sicrhau hynny. Ni fydd angen i bleidleiswyr sy'n mynd i orsafoedd pleidleisio gofrestru ar gyfer Profi Olrhain Diogelu y GIG oni bai bod y lleoliad ar agor at ddibenion eraill sy'n gwneud hynny'n ofynnol. Ni fydd trefnu pleidlais na mynychu gorsaf bleidleisio yn torri'r rheoliadau coronafeirws, sy'n cyfyngu ar symud ac ymgasglu gyda phobl eraill, cyn belled â bod pawb yn cadw at y rheolau pellter corfforol a rheoliadau eraill.

Serch hynny, byddem yn annog pobl, yn enwedig y rheini sy'n gwarchod eu hunain, i wneud cais am bleidlais drwy'r post. Os ydych yn bwriadu pleidleisio drwy'r post, dylech wneud cais cyn gynted â phosibl gan y bydd hynny'n helpu gweinyddwyr gyda'u paratoadau ar gyfer 6 Mai.

**Cyfrif pleidleisiau a chanlyniadau'r etholiadau**

Rydym yn cefnogi'n llwyr y camau y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau eu cymryd i reoli'r gwaith o gyfrif pleidleisiau mewn ffordd wahanol er mwyn sicrhau cydymffurfedd â chyfraith etholiadol yn ogystal â'r rheoliadau coronafeirws. Rydym yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer hynny. Rydym yn sylweddoli y gallai oedi ddigwydd cyn cwblhau'r cyfrif, ac rydym yn cydnabod bod hyn yn ddealladwy os ydym am sicrhau bod etholiadau'n rhydd ac yn deg o dan yr amgylchiadau presennol.